Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynffordd
# Brynffordd
# Treffynnon
# Sir y Fflint
# CH8 8AD

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Brynffordd wedi'i lleoli ym mhentref gwledig Brynffordd, tua milltir y tu allan i dref Treffynnon yn Sir y Fflint. Mae disgyblion yn byw yn y pentref a'r ardal gyfagos yn bennaf, ac mae nifer fach ohonynt yn teithio ymhellach.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Adeg yr arolygiad, roedd 77 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 13 o ddisgyblion meithrin rhan-amser.

Mae gan ychydig dros chwech y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 11% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol nac yn siarad Cymraeg gartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2008. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Brynffordd yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,430 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yw £15,097 a'r isafswm yw £2,912. Mae Ysgol Gynradd Brynffordd yn y 10fed safle allan o'r 72 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd cyson a chadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd;
- mae ymddygiad yn gyson dda iawn ac mae bron pob disgybl yn dangos parch, gofal a phryder am bobl eraill;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at fywyd yr ysgol ac yn dangos balchder a hyder yn eu gwaith;
- mae profiadau dysgu yn ysgogol ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau; ac
- yn gyffredinol, mae safon yr addysgu'n dda.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir, gadarnhaol a threfnus ar gyfer yr ysgol;
- mae llywodraethwyr yn adnabod ac yn deall yr ysgol yn dda, maent yn monitro cynnydd yr ysgol yn erbyn ei blaenoriaethau yn effeithiol ac yn herio'r ysgol yn briodol;
- mae gan yr ysgol ddiwylliant sefydledig o hunanwella a hanes da o weithio i godi safonau a gwella darpariaeth; ac
- mae'r broses hunanarfarnu yn drylwyr ac yn nodi cryfderau a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach yn llwyddiannus.

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A3 Cryfhau agweddau ar asesu ar gyfer dysgu, yn arbennig defnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar y cyfan, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u man cychwyn.

Ar draws yr ysgol, maent yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar oedolion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i siarad am eu gwaith a'u profiadau ac mae llawer ohonynt yn ateb cwestiynau gan ddefnyddio manylder addas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn mynegi eu barn yn glir gan ddefnyddio geirfa ddatblygedig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau cyfathrebu da ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trafod testunau yn hyderus gyda'u hathrawon a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn eglur ac mewn modd aeddfed.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn siarad yn wybodus am eu hoff awduron a'r llyfrau y maent wedi'u darllen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen testunau yn gywir ac yn siarad am yr hyn y maent wedi'i ddarllen gyda dealltwriaeth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Gallant ragfynegi sut gallai stori ddatblygu a beth allai'r canlyniad fod. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod dda o strategaethau i'w helpu i ddarllen geiriau nad ydynt yn gyfarwydd â nhw. Gall rhai disgyblion hŷn ddefnyddio medrau darllen lefel uwch yn effeithiol, fel bwrw golwg trwy destun i gael gwybodaeth a gwneud gwaith ymchwil am destun ar y rhyngrwyd.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn creu darnau priodol o ysgrifennu gan ddefnyddio strwythurau brawddeg cadarn ac ystod o eirfa yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safon yr ysgrifennu yn dangos cynnydd cyson. Mae rhai disgyblion yn ysgrifennu ystod briodol o ddarnau estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau, ac mae'r disgyblion mwyaf abl yn cynhyrchu ysgrifennu o safon uchel. Fodd bynnag, nid yw digon o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu estynedig yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, er enghraifft wrth greu siartiau bar yn eu gwaith testun ac amcangyfrif hyd ac uchder gwrthrychau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall gwerth lle unedau a degau yn briodol. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio diagramau Venn yn effeithiol mewn cyd-destunau gwahanol a gallant holi cwestiynau am y wybodaeth yn gywir. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda, er enghraifft wrth adio a thynnu rhifau 2 a 3 digid a mesur pwysau, uchder a hyd gan ddefnyddio unedau priodol. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddefnyddio medrau data yn effeithiol wrth gasglu a chyflwyno data, er enghraifft mewn tablau, siartiau bar a graffiau llinell. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn rhwydd i ganeuon a rhigymau Cymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i ystod o gyfarwyddiadau, cyfarchion a chwestiynau syml yn Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarchion, er nad yw ychydig iawn ohonynt yn hyderus wrth siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau ysgrifenedig gan ddilyn patrymau sefydledig. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen llyfrau Cymraeg yn gymwys gyda lefel briodol o ddealltwriaeth. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau dysgu unigol.

Mewn rhai blynyddoedd, mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn, sy'n gallu cael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol o gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2013, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n dda â chyfartaleddau ar gyfer y teulu ac ysgolion tebyg eraill. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad cyffredinol yn y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwyliedig wedi gwella, gan symud yr ysgol o'r 25% isaf o ysgolion tebyg i'r 25% uchaf. Yn 2013, roedd perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6 mewn llythrennedd yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg yn 2012 a 2013. Fodd bynnag, dirywiodd perfformiad mewn datblygiad mathemategol, gan symud yr ysgol o'r 25% uchaf yn 2012 i'r 50% is yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu gwelliant mewn perfformiad cyffredinol ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn 2013, gan symud yr ysgol i'r 25% uchaf o ysgolion tebyg. Yn y tair blynedd cyn 2013, roedd perfformiad cyffredinol yn golygu bod yr ysgol o fewn y 25% isaf yn gyson. Roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth yn golygu bod yr ysgol o fewn y 25% isaf yn gyson, tra bod perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% is a'r 25% isaf o ysgolion tebyg. Bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion mwy abl ar lefel 5 yn 2013, gan osod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi aros yn y 50% isaf yn gyson ar gyfer perfformiad mewn mathemateg dros y pedair blynedd diwethaf.

### Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach a diogel. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwerthfawrogi'r angen i fod yn gorfforol weithgar ac yn credu bod yr ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i alluogi iddynt wneud hynny.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt broblem. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig a sylwgar sy'n ymgysylltu'n llawn â'u gwersi. Maent yn ymroi yn dda, gan fabwysiadu agwedd gadarnhaol at weithgareddau dysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd mewn grwpiau ac wrth weithio mewn parau.

Yn ystod gwersi ac o amgylch yr ysgol, mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda. Dangosant gwrteisi, gofal a phryder am ei gilydd a pharch at staff ac ymwelwyr. Maent yn hyderus, agored a chroesawgar. Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn fforymau da i ddisgyblion fynegi eu safbwyntiau a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Er enghraifft, mae aelodau o'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac yn cyfrannu at syniadau effeithiol i wneud yr ysgol yn fwy cynaliadwy, fel y fenter ddiweddar i ddefnyddio peiriannau sychu dwylo.

Dros gyfnod, mae presenoldeb wedi bod yn gyffredinol is na phresenoldeb ysgolion tebyg, er y bu rhywfaint o welliant. Fodd bynnag, mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi bod yn y 25% isaf o gymharu â phresenoldeb ysgolion tebyg ac yn y 50% is yn 2011. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu, sy'n bodloni anghenion pob disgybl yn briodol. Mae'r cysondeb mewn cynllunio yn hyrwyddo dysgu effeithiol trwy weithgareddau perthnasol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu annibyniaeth, medrau cyfathrebu a meddwl yn benodol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol dan do ac yn yr awyr agored i ennyn diddordeb disgyblion. Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn sicrhau parhad a dilyniant effeithiol mewn dysgu disgyblion trwy gynllunio gofalus.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd sylweddol wrth roi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ar waith yn ei chynllunio. Mae cynlluniau gwaith ar draws y cwricwlwm yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, ni roddir cyfleoedd digon aml i ddisgyblion gynhyrchu darnau estynedig o ysgrifennu mewn gwahanol genres ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a phwysigrwydd ailgylchu ac arbed ynni. Mae cysylltiadau rhyngwladol gwerth chweil, er enghraifft gydag ysgolion yn Ffrainc, ochr yn ochr â chlwb Ffrangeg ar ôl yr ysgol, yn galluogi disgyblion i gael dealltwriaeth dda o'u lle yn y byd ehangach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Ceir llawer o gyfleoedd perthnasol trwy wersi priodol, prosiectau creadigol, dathliadau, ac yn arbennig cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i wella dysgu disgyblion trwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol mewn clybiau ar ôl yr ysgol. Trefnir ymweliadau addysgol amrywiol yn rheolaidd ac maent yn cyfoethogi profiad dysgu pob disgybl.

**Addysgu: Da**

Ym mhob dosbarth, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio da iawn gyda disgyblion, ac yn trefnu gweithgareddau sy'n annog dysgu effeithiol. Mae pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad yn gyson dda ac yn atgyfnerthu strategaethau ymddygiad

cadarnhaol yn effeithiol. Mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu a lles unigolion a grwpiau o ddisgyblion y maent yn eu cefnogi.

Pan mae'r addysgu yn arbennig o effeithiol, mae gwersi'n annog disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac yn darparu gwaith sy'n golygu eu bod yn defnyddio ystod o fedrau. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn holi cwestiynau craff sy'n atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion ac yn adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol. Mewn ychydig iawn o enghreifftiau lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae cyflwyniadau'n rhy hir, gan arafu cyflymder y wers; ac mae gormod o dasgau wedi'u seilio ar daflenni gwaith.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae marcio yn helpu disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio ystod dda o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir gyda disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, nid ydynt yn rhannu meini prawf llwyddiant clir. O ganlyniad, nid yw hi bob amser yn glir i ddisgyblion pa mor dda y maent wedi cyflawni a'r hyn y dylent ei wneud i wella.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u man cychwyn trwy ddefnyddio systemau olrhain effeithiol. Mae athrawon yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau safoni i gadarnhau cywirdeb eu barnau. Mae adroddiadau i rieni yn fanwl ac addysgiadol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn nodi anghenion dysgu disgyblion yn gyflym ac yn gywir. Mae staff yn sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu bodloni'n llawn. Mae cymorth ar gyfer disgyblion mwy abl a dawnus a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drefnus ac yn effeithiol. O ganlyniad, mae'n sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da tuag at dargedau dysgu yn eu cynlluniau addysg unigol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae gweithredoedd o gydaddoli yn galluogi disgyblion i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain, a bywydau pobl eraill, ac maent yn cymryd rhan mewn ystod o wasanaethau a pherfformiadau yn y gymuned leol a thu hwnt.

Mae'r cysylltiadau adeiladol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol yn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi i ddisgyblion a staff fel ei gilydd. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ac yn adlewyrchu ethos cynhwysol iawn ac mae hyn yn amlwg yn yr awyrgylch hapus a chyfeillgar yn yr ysgol. Trwy wasanaethau ysgol gyfan, ac yn yr ystafell ddosbarth, caiff cyflawniadau eu dathlu'n rheolaidd.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu ofalgar sy'n hyrwyddo parch tuag at oedolion a disgyblion. Dyma yw un o gryfderau'r ysgol. Yn unol â'i harwyddair, mae'r ysgol yn cyflawni ei nod i drin pob disgybl yn gyfartal.

Caiff yr adeiladau eu cynnal yn dda. Mae staff yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn effeithiol ac maent yn greadigol yn eu dull o ddarparu amgylchedd dysgu da a hyblyg. Mae arddangosfeydd deniadol ar draws yr ysgol yn cefnogi dysgu'n dda ac yn dathlu ystod eang y gwaith a'r gweithgareddau y mae disgyblion yn eu mwynhau. Mae adnoddau ar gyfer holl feysydd y cwricwlwm yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd da, gan gynnwys cwrt gemau pob tywydd, ac ystod addas o offer TGCh i fodloni anghenion dysgwyr. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i mannau yn yr awyr agored ar gyfer dysgu a gweithgarwch hamdden.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir, gadarnhaol a threfnus ar gyfer yr ysgol, sydd wedi'i seilio ar weledigaeth i "hyrwyddo partneriaeth rhwng pawb" a "chefnogi disgyblion hapus, wedi'u cyfoethogi". Caiff y weledigaeth, a ddatblygwyd gan y staff addysgu mewn proses gynhwysol, ei mynegi yn arwyddair yr ysgol: "Pob plentyn, pob cyfle, pob dydd", a welir ar holl ddogfennau'r ysgol a'i gohebiaeth.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei dyheadau yn effeithiol iawn gyda thîm dynodedig o staff sy'n dangos ymrwymiad amlwg i les y disgyblion. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod llywodraethwyr, disgyblion a rhieni yn teimlo'n rhan o'r weledigaeth hon ar y cyd hefyd. Mae'n defnyddio'i hamser arweinyddiaeth yn effeithiol iawn i sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn esmwyth, gan ddilyn amcanion strategol cytûn.

Mae pob un o'r staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion yr ysgol a'i datblygiad yn y dyfodol. Mae athrawon yn deall eu cyfrifoldebau fel arweinwyr pwnc yn dda iawn ac maent yn monitro ac yn arfarnu safonau a darpariaeth yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at godi safonau yn eu meysydd pwnc.

Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod yr ysgol yn gwneud cynnydd da wrth fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft wrth roi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ar waith a datblygu cynaliadwyedd.

Mae llywodraethwyr yn adnabod ac yn deall yr ysgol yn dda, ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn effeithiol. Maent yn ymgymryd â rôl weithredol yn y broses hunanarfarnu, ac maent yn monitro'r cynnydd yn unol â'i blaenoriaethau yn effeithiol, gan gynnwys trwy ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth. Maent yn gwybod pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill, ac yn herio'r ysgol yn briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddiwylliant sefydledig o hunanwella a hanes da o weithio i godi safonau a gwella darpariaeth. Mae'r broses hunanarfarnu yn drylwyr ac yn nodi cryfderau a meysydd priodol i'w datblygu ymhellach yn llwyddiannus.

Mae athrawon, disgyblion a llywodraethwyr i gyd yn ymgymryd â rôl weithredol mewn casglu tystiolaeth a nodi blaenoriaethau ar gyfer yr adroddiad hunanarfarnu mewn cyfarfodydd hunanarfarnu blynyddol. Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth effeithiol i safbwyntiau rhieni trwy eu hymatebion i holiaduron. Mae'r pennaeth a'r athrawon yn defnyddio data disgyblion a thystiolaeth uniongyrchol o ansawdd dysgu ac addysgu yn llwyddiannus i arfarnu perfformiad disgyblion a gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn glir iawn ac mae'n nodi blaenoriaethau priodol trwy'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun hwnnw yn ddogfen weithio ddefnyddiol, sy'n cynnwys ffocws penodol iawn ar godi safonau a gwella darpariaeth. Mae ei dargedau yn hylaw ac ymarferol, ac mae pob un o staff yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl wrth symud ei blaenoriaethau ymlaen. Mae amserlenni clir ar gyfer cynnydd, ac mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn dyrannu cyllid priodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid i gyfoethogi dysgu a lles disgyblion.

Mae cysylltiadau da gyda rhieni sy'n galluogi cyfathrebu amserol ac effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r cylchlythyr wythnosol yn hyrwyddo cyfathrebu effeithiol sy'n hysbysu rhieni am ystod o faterion ysgol. Mae Ffrindiau Ysgol Brynffordd yn weithgar yn codi arian ac maent wedi darparu ystod dda o adnoddau i'r ysgol, fel sicrhau benthyciad di-log i uwchraddio'i hadnoddau TGCh, er enghraifft.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cyfnod pontio disgyblion i'r ysgolion cyfun lleol, sy'n galluogi disgyblion i ymgynefino'n gyflym yn eu hysgol newydd. Mae cysylltiadau effeithiol gyda'r clwstwr ysgolion cynradd lleol ar ystod o fentrau, sy'n cynnwys safoni a chymedroli safonau ac asesiadau disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cyfagos i gynllunio gweithgareddau ar y cyd, a rhannu adnoddau ac arfer dda.

Mae gan yr ysgol rôl weithgar yn y gymuned leol, er enghraifft trwy ymweld â'r capel a'r eglwys leol ar gyfer gweithgareddau tymhorol amrywiol. Mae cydweithio agos ag aelodau o'r gymuned wedi arwain at roi prosiectau cwricwlaidd cynlluniedig ar waith, er enghraifft sefydlu cofeb i weithwyr copr lleol.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â llawer o asiantaethau cymorth allanol o'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Mae athrawon yn mynd ati i ofyn am gymorth gan ymgynghorwyr annibynnol hefyd, er enghraifft i sicrhau dilyniant a pharhad mewn mathemateg.

Mae'r ysgol yn elwa ar bartneriaeth lwyddiannus gyda phrifysgol a choleg addysg bellach yng Ngogledd Cymru i ddarparu lleoliadau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant a myfyrwyr gofal plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae niferoedd digonol o athrawon sy'n meddu ar gymwysterau priodol yn yr ysgol. Mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth effeithiol iawn i athrawon ac maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion neu grwpiau unigol.

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol o ran baich gwaith athrawon. Mae trefniadau priodol i gyflenwi ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad y pennaeth a'r staff addysgu yn gadarn, ac yn cysylltu'n dda iawn â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r uwch athro yn yr ysgol yn arwain rheoli perfformiad staff cymorth yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus athrawon yn dda iawn. Mae pob un o'r athrawon wedi cymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth, er enghraifft wrth ddatblygu methodoleg y Cyfnod Sylfaen a chynllunio datblygu medrau yn raddol.

Mae'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb flynyddol yr ysgol yn ofalus. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a swyddog cyllid yr awdurdod lleol yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Mae'r ysgol yn sicrhau bod mentrau'n cael eu hariannu'n effeithiol a bod defnydd effeithlon o grantiau penodol fel y grant amddifadedd disgyblion. Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth sicrhau cyllid o ystod o ffynonellau i gefnogi gweithgareddau a gwella adnoddau.

O ran y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn, sy’n gallu cael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol, o gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i’r llall.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar ddeilliant disgwyliedig 5 wedi gwella, gan symud yr ysgol o’r 25% isaf o ysgolion tebyg i’r 25% uchaf mewn llythrennedd, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol. Yn 2013, o gymharu â lefelau perfformiad ysgolion eraill yn yr un teulu, roedd perfformiad ym mhob un o’r tri maes dysgu uwchlaw’r cyfartaledd.

Roedd perfformiad disgyblion mwy abl ar ddeilliant 6 mewn llythrennedd yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg yn 2012 a 2013. Ar y lefel hon, roedd perfformiad mewn datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf yn 2012 ac o fewn y 50% is yn 2013. O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn yr un teulu, roedd perfformiad yn 2013 ym mhob un o’r tri maes dysgu islaw’r cyfartaledd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn 2013 wedi gwella, gan symud yr ysgol i’r 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y tair blynedd cyn 2013, roedd ei pherfformiad yn golygu ei bod yn y 25% isaf ar gyfer pob un o’r tri phwnc, yn gyffredinol. O gymharu â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un teulu, roedd perfformiad ar gyfer pob un o’r tri dangosydd yn well na’r cyfartaledd yn 2013.

Bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion ar lefel 5 yn 2013 ac roedd yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth. Cyn hyn, am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi amrywio, gan symud yr ysgol fel ei bod rhwng y 50% is a’r 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer y ddau bwnc. Fodd bynnag, mae’r ysgol wedi aros yn y 50% is ar gyfer perfformiad mewn mathemateg dros y pedair blynedd diwethaf. O gymharu â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un teulu, roedd perfformiad yn 2013 uwchlaw’r cyfartaledd ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth ond ychydig yn is mewn mathemateg.

Oherwydd nifer fach y disgyblion yng ngharfannau Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6, nid yw’n bosibl gwneud cymariaethau ystyrlon o berfformiad bechgyn a merched na chymharu perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim â’u cyfoedion.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 40 | 40<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 40 | 39<br>98% | 1<br>2% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 38 | 38<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 40 | 40<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 40 | 39<br>98% | 1<br>2% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 38 | 37<br>97% | 1<br>3% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 40 | 40<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 40 | 39<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 40 | 39<br>98% | 1<br>2% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 37 | 34<br>92% | 3<br>8% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 31 | 29<br>94% | 2<br>6% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 38 | 37<br>97% | 1<br>3% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 33 | 28 | 4 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 85% | 12% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 33 | 29 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 33 | 30 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 33 | 23 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 70% | 27% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 33 | 25 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 33 | 27 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 33 | 25 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 33 | 22 | 8 | 2 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 67% | 24% | 6% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 33 | 24 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 24% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 33 | 26 | 7 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 33 | 28 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 85% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 32 | 21 | 8 | 2 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 66% | 25% | 6% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 33 | 21 | 10 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 64% | 30% | 6% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 32 | 22 | 7 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 69% | 22% | 6% | 3% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 17 | 13 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 53% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 33 | 28 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 32 | 13 | 11 | 1 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 41% | 34% | 3% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 32 | 25 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 33 | 27 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anthony John Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Eleri Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Goldsmith | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.